# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I'R CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 3 Gorffennaf, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **Awdur:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru<br>– Diweddariad Cynnydd & Trefn Llywodraethu |

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno cytundeb llywodraethu sydd ei angen yn ei le er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â rhoi'r hawl i'r Bwrdd wneud penderfyniadau, a hynny gyda chyfyngiadau penodol.

1.2. Y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd-gordio cais "Cynllun Twf" ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â thargedu adnoddau sylweddol a phwerau newydd i'r rhanbarth, yn bennaf er mwyn cryfhau'r economi a chreu swyddi.

1.3. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cytundeb Llywodraethu (can cyntaf) yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn.

### 2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

a. Nodi a chroesawu cynnydd datblygiad cais y Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth.

b. Bod y Cytundeb Llywodraethu, cam cyntaf a sefydlu Cyd-Bwyllgor ar gyfer y Cynllun Twf yn derbyn cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i gadarnhad y Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf, 2018) o'r trefniadau ar gyfer Craffu.

c. Bod drafft terfynol o Gais y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018 i'w gymeradwyo cyn bod Penawdau'r Telerau yn cael eu cytuno gyda Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru.

ch. Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i wneud man newidiadau i'r Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf drafft yn ôl yr angen er cwblhau'r gytundeb .

### 3. CEFNDIR

3.1. Ym mis Medi 2016, mabwysiadodd y Cabinet y "Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru" sy'n gosod uchelgais strategol ar gyfer y rhanbarth, ac i ddatblygu trafnidiaeth ac isadeiledd, sgiliau a swyddi, hybu arloesedd a thwf busnes. Fe wnaeth y Cabinet a phum Cyngor arall sy'n bartneriaid yn y rhanbarth fabwysiadau'r strategaeth hefyd.

3.2. Cyflwynwyd ail adroddiad ym mis Mawrth 2017 i'r Cabinet yn nodi bod Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad i ddatblygu'r strategaeth yn Gais Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol gan Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru. Ar y pryd, mabwysiadwyd model Cyd-bwyllgor statudol fel yr un mwyaf addas ar gyfer llywodraethu.

3.3. Ym mis Medi 2017, cadarnhaodd y Cabinet ei gefnogaeth i'r model Cyd-bwyllgor ac awdurdodwyd yr Arweinydd i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y "Cyd-bwyllgor Cysgodol" yn y cyfnod interim.

3.4. Mae gofyn cyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol, a rhoi pwerau gwneud penderfyniadau, i'r Cyd-bwyllgor - a hynny gyda chyfyngiadau penodedig.

3.5. Enw'r Cyd-bwyllgor fydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.6. Bydd Cabinet y 6 Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yn ystyried cynnwys yr adroddiad templed, sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn fel **Atodiad 1**. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi manylion pellach am gefndir y trefniadau llywodraethu.

3.7. Mae'r Cytundeb Llywodraethu (cam cyntaf) drafft, sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn fel **Atodiad 2**, yn delio â threfniadau gweithredol ac anweithredol. Mae'n fwriad cyflwyno adroddiad ar y mater i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf i gael cymeradwyaeth ar y ddarpariaeth ar gyfer Craffu yn y Gytundeb.

3.8. Mae'n bwysig bod hygrededd yn perthyn i'r trefniadau llywodraethu, a'u bod yn glir a chadarn ac yn cael eu cydnabod gan y ddwy lywodraeth. Mae hynny, yn amlwg, yn allweddol os ydym am ddenu adnoddau i'r rhanbarth, a derbyn grymoedd ychwanegol. Mae'r Cytundeb Llywodraethu (cam cyntaf) yn cyflawni hynny, ac o dderbyn cefnogaeth yr Awdurdodau Lleol, bydd y Cyd-bwyllgor yn symud o fod yn un "cysgodol" i fod yn un "real".

**3.9. Mae cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu yn cyfeirio at gyfnod cynllunio a datblygu (hyd Ebrill 2019). Bydd angen Cytundeb Llywodraethu newydd – a llawer mwy manwl – ar gyfer yr ail gam, fydd yn delio â'r cyfnod gweithredu ac o Ebrill 2019 ymlaen.**

3.10. Y prif faterion sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Llywodraethu (cam un) yw:-

- cylch gorchwyl a'r aelodaeth
- trefniadau pleidleisio a gwneud penderfyniadau
- rhannu risgiau
- materion i'w cadw'n ôl
- trefniadau craffu

Cyflwynir yn ogystal y "Map Llywodraethu" yn **Atodiad 3** sy'n dangos y cyswllt gydag Is-fyrddau a Fforymau eraill.

3.11. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno cynnwys y Cynllun Twf arfaethedig mewn manylder, gan mai ei brif bwrpas yw cyflwyno trefniadau llywodraethu i'w mabwysiadu.

3.12. Er hynny, cyflwynir crynodeb gweithredol drafft o'r Cynllun Twf yn **Atodiad 4**, ynghyd â naratif o'r prosiectau gwahanol. Mae hyn yn rhoi blas i'r Aelodau o natur y prosiectau y bwriedir eu cyflwyno am arian o'r Cynllun Twf.

3.13. Bydd drafft o gais llawn y Bwrdd Uchelgais am Adnoddau a phwerau o Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2018, cyn y broses lle cyrhaeddir Penawdau'r Telerau (gyda'r ddwy lywodraeth).

3.14. Adroddwyd ar y trefnidau llywodraethu arfaethedig i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 21 Mehefin 2018. Dyma'r prif negeseuon gan aelodau'r Pwyllgor:

*"Roedd aelodau'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn diweddariad gan yr Arweinydd i'r trefniadau TwF Economaidd Gogledd Cymru. Mae aelodau'r pwyllgor wedi dangos cefnogaeth i gyfeiriad y cynllun o'r dechrau, ac yn parhau i fod yn gefnogol. Mae'r prif negeseuon heddiw fod bynnag, yn canolbwyntio fwy ar y risgiau sydd angen eu hystyried wrth i'r cynllun ddatblygu.*

*RISGIAU ARIANNOL*
*Yn sgil yr adroddiad a'r trafodaethau heddiw, bu i'r aelodau adnabod fod potensial o risgiau a goblygiadau ariannol i'r Cyngor yn sgil y cynllun. Mae angen sicrwydd:*

- *fod y buddion o'r cynllun yn gorbwyso y risgiau ariannol*
- *fod holl aelodau Gwynedd yn fodlon fod pob cam posib yn cael ei gymeryd i leihau'r risgiau ariannol*
- *fod y cynllun busnes a'r cynlluniau prosiect yn wydn, ac yn cael eu rheoli yn gadarn – hynny er mwyn lleihau'r risgiau fod partneriaid yn tynnu allan o brosiectau a'r risg ariannol wedyn yn disgyn i'r awdurdod*
- *fod angen i'r aelodau fod yn gallu craffu y cynlluniau yn aml i sicrhau fod risgiau busnes (ariannol a chyflawni) yn cael eu rheoli*

*RISGIAU LLYWODRAETHU*
*Eto, yn deillio o'r wybodaeth i law a'r trafodaethau heddiw, nodwyd y negeseuon a'r risgiau isod ynghylch y trefniadau llywodraethu arfaethedig:*

- *mae cefnogaeth i graffu y cynllun TwF fesul awdurdod*
- *nodwyd pryder am ddirprwyo hawliau i'r Arweinydd, gan dderbyn ar yr un pryd ei fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod yr Arweinydd yn bwydo gwybodaeth yn gyson i Aelodau Gwynedd ac yn atebol i'r aelodau am gyfeiriad y cynllun, cynnydd ar brosiectau ac am risgiau'n cael eu rheoli.*

*RISGIAU ERAILL*
*Nodwyd hefyd rhai risgiau eraill y dylid eu hystyried*
- *risgiau gwleidyddol, megis newid cyfeiriad o du Llywodraeth Cymru, a'i bod yn hanfodol bod yn effro i hyn*
- *parhau i nodi'r risg gwleidyddol o gydweithio ar draws awdurdodau Gogledd Cymru*

*Fodd bynnag, yn allweddol, nodwyd mai un o'r prif risgiau fyddai peidio gweithio'n Rhanbarthol. Trwy gydweithio'n Rhanbarthol gall Cyngor Gwynedd sicrhau llais cryf i fynnu fod materion a datblygiadau yn dod yn sgil y cynllun i Wynedd gyfan.*

*Nodwyd hefyd gais i roi sylw i ystyried y buddion a'r goblygiadau o Wynedd yn awdurdod lletyol ar gyfer y Cynllun."*

## 4. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 4.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**

Gan fod elfennau llywodraethu yn ganlyniad mewnbwn cyfreithiol sylweddol, nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Bydd cyfleoedd gwerthfawr i ranbarth Gogledd Cymru gyda'r "Cynllun Twf", ynghyd â risgiau ariannol posibl i'w awdurdodau lleol perthnasol. Felly, rwyf wedi bod yn cefnogi a chynghori Arweinydd y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth i'r agenda arloesol yma symud ymlaen, gyda golwg ar amddiffyn buddiannau pobl Gwynedd.

Rwy'n cefnogi'r penderfyniadau a geisir, er mwyn galluogi i'r bartneriaeth ranbarthol symud ymlaen i weithredu. Rydym yn barod i letya'r 'Bwrdd' am gyfnod y cytundeb cychwynnol, tra'n nodi bydd ymrwymiad a risgiau mwy sylweddol yng nghyfnod yr ail gytundeb llywodraethu wedi llofnodi'r Cynllun Twf. Mewn da bryd erbyn yr adeg hynny, bydd yn hanfodol i benderfynu ar un corff atebol gydag adnoddau proffesiynol digonol i reoli'r risgiau sylweddol.

### 4.2. Barn yr Aelod Lleol:

4.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 4.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

4.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Adroddiad Templed |
| **Atodiad 2** | Cytundeb Llywodraethu |
| **Atodiad 3** | Map Llywodraethu |
| **Atodiad 4** | Crynodeb Gweithredol a Naratif Prosiectau |

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.